# CELFYDDYDAU

## AR GYFER IECHYD A LLES

# Astudiaeth Achos
# Haf Weighton



Cardiff & Vale HealthCharity Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale University Health Board

## Sut y dechreuodd... Haf

Fy unig brofiad o fod yn yr ysbyty oedd pan gefais fy mhlant yn Ysbyty Coleg Prifysgol Llundain. Mae rhaglen artistiaid helaeth o fewn adain bwrpasol yn yr ysbyty hwnnw a theimlais fod gweld y gwaith celf a oedd yn newid o amgylch y waliau yn ystod fy ymweliadau amrywiol ac wrth aros yno wedi fy helpu.

Pan symudais yn ôl i Gymru am y tro cyntaf yn 2016, clywais drwy ffrind i mi sy'n Feddyg fod Rhaglen y Celfyddydau mewn Iechyd ac oriel yn Ysbyty Athrofaol Llandochau ac awgrymodd fy mod yn cysylltu â Phennaeth Tîm y Celfyddydau ar gyfer Iechyd a Lles BIP Caerdydd a'r Fro. Rhoddais alwad iddi a gwnaethom drefnu cyfarfod.

Roedd Hafan y Coed newydd gael ei hadeiladu ac fe wnaethon ni gyfarfod yno. Dangosodd Simone y gwaith a gomisiynwyd i mi. Pan welodd fy ngwaith, gofynnodd i mi greu darn i'r ysbyty i fynd i fyny y tu ôl i'r fynedfa. Roedd hwn yn gyfle mawr i mi ar y pryd a minnau newydd fentro i fynd o fod yn athro celf llawn amser yn Llundain i fod yn artist llawrydd llawn amser yng Nghymru.

Felly fe es i y tu allan i'r adeilad a gwneud braslun yno ac yna mynd â'r lluniau adref a chreu'r darn terfynol mewn un diwrnod.



# Sut y Tyfodd...

Yn fuan ar ôl creu'r darn ar gyfer Hafan y Coed, daeth yn amlwg bod perthynas gydweithredol hirdymor gyda Rhaglen y Celfyddydau ar gyfer Iechyd a Lles wedi ei ffurfio.



Fel siaradwr Cymraeg, trefnodd Haf gydweithrediad ar ran Tîm y Celfyddydau gydag Urdd Gwneuthurwyr Cymru yn Oriel Crefft yn y Bae, Butetown, Caerdydd a thîm yr Eisteddfod Genedlaethol fel rhan o ddathliadau'r Urdd yn 2019, gan gyflwyno nifer o weithdai tecstilau dwyieithog ochr yn ochr â phobl greadigol eraill. Cafodd 'Brysia Wella', arddangosfa sy'n dathlu diwylliant Cymru a'r iaith Gymraeg, ei chefnogi gan Gadeirydd BIPCAF ar y pryd, Maria Battle, a Julie Morgan AS, a chafodd y gweithdai ymateb da gan y bobl ifanc a oedd yn bresennol.



Dechreuodd Haf weithio gydag Ysgol Gynradd Pencoed ar brosiect Ysgolion Creadigol Arweiniol Cyngor Celfyddydau Cymru. Arweiniodd y prosiect at arddangosfa o'i gwaith ochr yn ochr â'r gwaith a grëwyd gan blant ym Mhencoed yn Oriel yr Aelwyd yn Ysbyty Llandochau.



Agorwyd yr arddangosfa yn swyddogol gan Gomisiynydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, Sophie Howe. Roedd yr ymateb i'r arddangosfa honno yn hynod gadarnhaol ac yn dilyn llwyddiant yr arddangosfa, cysylltodd Haf ag Oriel Saatchi yn Llundain, a ofynnodd am gael gweld y gwaith, a chytunwyd i gynnal yr arddangosfa yno yn 2018. Aeth plant o Ysgol Gynradd Pencoed, yn ogystal â chynrychiolwyr o Gyngor Celfyddydau Cymru, i'r agoriad yn y Saatchi.



# Dod â phobl at ei gilydd.

**“Gwnaeth y profiad pwerus o wella ar ôl niwmonia yn 2018 wneud i mi ddeall pwysigrwydd y celfyddydau ym maes iechyd ar lefel wahanol. Awgrymodd Dr Mark Taubert wrthyf y dylwn brosesu'r profiad o fod yn sâl drwy greu gwaith celf. Fe wnes i hyn flwyddyn yn ddiweddarach gyda'r arddangosfa yn Crefft yn y Bae, gyda medalau yn cynnwys negeseuon ‘brysia wella’ gan wahanol bobl.**

**Weithiau mae pobl yn sôn eu bod wedi bod yn sâl yn yr ysbyty a bod gweld fy ngwaith wedi codi eu calon neu wedi eu helpu mewn rhyw ffordd. Mae hyn yn rhoi pwrpas uwch i'm gwaith a'r ystyr sy’n sail iddo. Mae gweithio gyda'r bwrdd iechyd nid yn unig wedi helpu i ddatblygu fy ngyrfa, mae hefyd wedi rhoi cyfeiriad a ffocws i mi ar gyfer fy ngwaith celf”. - *Haf Weighton***







**“Mae ein partneriaeth hirsefydlog gyda Haf Weighton ers 2016 wedi ei gweld yn gyson yn creu gwaith o safon eithriadol o uchel, ac rydym hefyd wrth ein bodd ei bod yn dod â diddordeb ehangach i bob thema prosiect, gan gysylltu sawl sefydliad i weithio gyda'i gilydd fel rhan o'r broses.**

**Mae Haf yn artist amryddawn, cynhyrchiol ac yn gyfathrebwr rhagorol sy'n gallu cynnwys pynciau amrywiol o fewn prosiectau sy'n cyd-fynd â chwricwlwm yr ysgol. Mae'r dull hyblyg hwn yn hanfodol ar gyfer cyflwyno mewn ysgolion, ond gall hefyd godi prosiectau i gynnwys y gymuned ehangach a sefydliadau eraill, gan ddarganfod ac amlygu drwy ei menter a'i hymchwil ei hun, fanylion a ffeithiau sy'n dod â dyfnder, cyfoeth a safbwyntiau newydd i brosiectau i bawb. Mae Haf hefyd yn cefnogi'r prosiectau drwy'r cyfryngau cymdeithasol, ac mae'n un o gyfathrebwyr gwych bywyd, ac yn artist gwerthfawr iawn o fewn rhwydwaith BIPCAF” - *Tîm y Celfyddydau ar gyfer Iechyd a Lles***

# Y Dyfodol

Ar hyn o bryd mae Haf yn gweithio ar brosiect gyda Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches yn Oasis. Mae hi'n teimlo mai dyma'r prosiect mwyaf gwerth chweil gyda'r bwrdd iechyd hyd yma, a bod y rhyngweithio a'r sgyrsiau y mae wedi'u cael gyda'r ceiswyr lloches a'r ffoaduriaid yn Oasis wedi rhoi persbectif newydd iddi.

Mae trafodaethau'n parhau ynghylch prosiect mwy gyda'r Bwrdd Iechyd sy'n ymwneud ag Ysbyty Brenhinol Caerdydd a'r ardaloedd cyfagos. Mae Haf yn rhugl yn y Gymraeg a sylwodd wrth weithio gyda cheiswyr lloches fod yna agwedd agored i'r syniad o'r iaith Gymraeg. Mae hi'n gobeithio ymgorffori hyn fel syniad yn y prosiect nesaf ar gyfer y Celfyddydau ar gyfer Iechyd a Lles.
Mae tîm y Celfyddydau ar gyfer Iechyd a Lles hefyd yn cydweithio â Haf fel rhan o brosiect Ysbyty Brenhinol Caerdydd: pobl, lle, y dyfodol a ariennir gan Gyngor Celfyddydau Cymru.



ARTS FOR HEALTH AND WELLBEING

Cardiff & Vale HealthCharity ElusenIechyd Caerdydd a'r Fro

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | Cardiff and Vale University Health Board

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales